



Cyfarfod

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Dyddiad ac Amser

2.00 y.h., DYDD GWENER, 24AIN MEHEFIN, 2016

***BYDD CYFARFOD O'R PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD YN
DILYN Y PWYLLGOR**

Lleoliad

SWYDDFEYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN, LLANGEFNI

Pwynt Cyswllt

Nia Haf Davies

01286 679 890

niahafdavies@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 16 Mehefin 2016)

PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Aelodaeth

Gwynedd

Y Cynghorwyr

Gwen Griffith
Dyfrig Jones John Pughe Roberts
Owain Williams

John Brynmor Hughes
Dafydd Meurig
John Wyn Williams

Ynys Môn

Y Cynghorwyr

Richard Dew
Ann Griffith
William Thomas Hughes

John Arwel Roberts

Lewis Davies
John Griffith
Victor Hughes

Eilyddion

Gwynedd

Sedd wag

Ynys Môn

Y Cynghorydd Jeffrey Evans

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD AM 2016 - 2017

I ethol Cadeirydd am 2016/17

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AM 2016 - 2017

I ethol Is-gadeirydd am 2016/17

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION

5 - 11

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29.1.16 fel rhai cywir

7. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL AR GYFER 12 - 17 PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

Cyflwyno adroddiad gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio (dros dro)

8. CYFRIFON TERFYNNOL PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y 18 - 28 CYD (AR GYFER Y FLWYDDYN DDAETH I BEN 31.3.16)

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Reolwr Cyllid

Eitem 6



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd

10:30 yb, 29 Ionawr 2016

Siambwr Dafydd Orwig, Caernarfon

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Lewis Davies
Cyng. Richard Dew
Cyng. Ann Griffith
Cyng. John Griffiths
Cyng. Victor Hughes
Cyng. WT Hughes
Cyng. John Arwel Roberts

Cyngor Gwynedd

Cyng. Gwen Griffith
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. John Wyn Williams
Cyng. Owain Williams

Swyddogion:

Rhun ap Gareth	Uwch Gyfreithiwr (CG)
Nia Haf Davies	Rheolwr - UPCC
Gareth Jones	Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (dros dro) (CG)
Jim Woodcock	Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd (CSYM)
Heledd Ff. Jones	Arweinydd Tîm Busnes & Economi - UPCC
Bob Thomas	Arweinydd Tîm Tai & Chymunedau - UPCC
Eirian Harris	Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC

Ymddiheuriadau:

Cyng. Dyfrig Jones (CG)
Cyng. Jeff Evans (CSYM) - Eilydd
Cyng. Gethin Glyn Williams (CG) - Eilydd

1. YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dywedodd y swyddogion canlynol na fyddent yn gallu cymryd rhan mewn trafodaeth am safleoedd o fewn yr aneddeleoedd a restrir:

Nia Haf Davies: Bethesda
Chwilog
Llanfairpwll
Dolydd
Dinas (Llanwnda)

Heledd Ff. Jones: Benllech
Llangaffo
Llangefni
Llangristiolus

Bob Thomas: Porthaethwy
Llanddanielfab
Llanrug
Llandwrog
Polisi Strategol Telathrebu (PS3)

Jim Woodcock: Waun, Penisarwaun

Nododd Cyng. Lewis Davies ei fod yn aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ac yn aelod o Gymdeithas Hanes Uwch Gwyrfai, ond y byddai'n cymryd rhan y drafodaeth yn rhinwedd ei swydd fel aelod o'r Pwyllgor.

Rhoddyd cyngor cyffredinol i'r Pwyllgor nad oedd angen gadael y Siambr os ydynt yn perthyn i fudiadau sydd wedi cyflwyno sylwadau ond byddai angen i Aelodau sydd wedi cyflwyno sylwadau am y Cynllun benderfynu o ran datgan buddiant yn unol a'r Cod Ymddygiad.

3. MATERION BRYD

Ni chyflwynwyd unrhyw fater bryd.

4. COFNODION

Derbyniwyd Cofnodion Pwyllgor 26 Mehefin 2015 fel y rhai cywir a chawsant eu harwyddo gan y Cadeirydd.

5. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD & MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr (Polisi) yn egluro'r broses a'r cynnydd ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd:-

- Esboniwyd fod yr amserlen ddiwygiedig wedi ei gyflwyno i'r Panel a'i hysbysebu drwy Newyddlen - Rhifyn 5. Hyd yn hyn mae cam 9) o'r amserlen bron wedi ei gyrraedd.
- Rhoddwyd eglurhad o'r broses a manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Adnau yn ogystal â disgrifiad o'r math o sylwadau a dderbyniwyd.
- Cafwyd eglurhad ynglŷn â Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol a'r canllawiau perthnasol. Tynnwyd sylw'r Pwyllgor i'r gofynion wrth ystyried y sylwadau, gan gynnwys y math o newidiadau, sef 'Mân Newid' ac 'Newid â Ffocws' a fyddai'n bosib eu cynnwys os oedd angen gwneud newidiadau.
- Cyfeiriwyd at adroddiad a gafodd ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Mehefin 2015 gan Mr Iwan Evans, (Ymgynghorydd Cynllunio) (Atodiad D) er mwyn eu cynorthwyo i ddeall pa fath o newidiadau fuasai yn briodol.
- Eglurwyd mai pwrpas yr Archwiliad fyddai sicrhau fod y Cynllun yn 'gadarn' – ac wrth weithio drwy'r broses Archwiliad Cyhoeddus fe fyddai'r Arolygydd yn edrych ar y Profion Cadernid a gafodd eu cynnwys yn Atodiad CH.
- Cafwyd crynodeb o'r prif faterion a godwyd yn y sylwadau a dderbyniwyd, ynghyd â throsolwg o ymatebion:-
 - Graddfa twf tai gan gynnwys ei berthynas a'r iaith Gymraeg
 - Strategaeth i sicrhau twf tai a'r berthynas gyda'r iaith Gymraeg
 - Strategaeth ofodol, gan gynnwys statws aneddeled
 - Tai fforddiadwy
 - Tai marchnad leol
 - Anghenion llety sipsiwn a theithwyr
 - Economi a chyflogaeth gan gynnwys darpariaeth tir
 - Ynni adnewyddadwy gan gynnwys tyrbinau gwynt
 - Gwarchod amgylchedd naturiol
 - Dyraniadau safleoedd penodol
- Eglurwyd bod Atodiad A i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o bob un sylw unigol ac ymateb i'r sylwadau unigol.
- Tynnwyd sylw at y papurau ychwanegol a gafodd eu cylchredeg ar 26 Ionawr 2016 ac i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 29 Ionawr 2016 a oedd (i) yn cyfeirio at ddiwygiadau angenrheidiol i Atodiad B a (ii) yn cofnodi sylwadau na chafodd eu cynnwys yn Atodiad A.
- Ar ôl ystyried y materion a godwyd yn y broses ymgynghori yn ofalus, gan gynnwys trafodaethau ac adborth y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gweler bod yr adroddiad yn dod i gasgliad na chyflwynwyd rhesymau na thystiolaeth rymus a chadarn i gynnig newidiadau sylfaenol i'r Cynllun Adnau.
- Ystyrir y byddai rhannau o'r Cynllun Adnau yn elwa o fân newidiadau a newidiadau â ffocws, ac 'roedd y rheini i'w gweld yn Atodiad B a C i'r adroddiad.
- Dywedwyd nad oes rhaid i'r Cynghorau ymgynghori am Newidiadau â Ffocws cafwyd argymhelliad i wneud hynny gan fyddai hynny yn arddangos ymarfer gorau, gan roi cyfle i gael barn y cyhoedd ar y newidiadau ar gyfer yr Archwiliad Cyhoeddus.
- Esboniwyd nad oedd y Newidiadau â Ffocws yn cael effaith andwyol ar yr asesiadau statudol, sef Arfarniad o Gynaliadwyedd (yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol) Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.
- Cyn symud i ystyried sylwadau unigol cafwyd trosolwg o'r broses Archwiliad Cyhoeddus: Pan fydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru, fe fyddai hynny'n sbardun i gysylltu efo'r Arolygiaeth Cynllunio a fyddai yn penodi Arolygwr. Oni bai bod angen galw Cyfarfod Esboniadol fe fyddai Cyfarfod Cyn

Gwrandawiadau yn cael ei drefnu er mwyn i'r Arolygydd egluro'r broses a chyflwyno'r 'Swyddog Rhaglen'. Esboniwyd bod y Swyddog Rhaglen wedi cael ei phenodi ac y byddai'n gweinyddu'r broses Archwiliad ar ran yr Arolygydd. Hi fyddai'r pwynt cyswllt rhwng yr Arolygydd a'r Cynghorau, a rhwng yr Arolygydd a'r gwrthwynebwyr. Eglurwyd byddai 'Gwrandawiadau Cyhoeddus' ynglŷn â themâu yn cael eu trefnu yn ystod y broses Archwiliad. Fe fydd gwrthwynebwyr yn gallu datgan eu dymuniad i gael 'gwrandawriad cyhoeddus' am eu gwrthwynebiadau neu fe allant ddibynnu ar eu gwrthwynebiadau ysgrifenedig.

- Rhestrwyd y dogfennau sydd i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r Arolygaeth Cynllunio, yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Datblygu Lleol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, codwyd y prif faterion canlynol:

- Yn deall fod yr amserlen yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor ar wahân.
- Gofynnwyd a fydd yr Arolygydd yn siaradwr Cymraeg - fe fyddai hyn yn ffactor bwysig er mwyn deall y sefyllfa ieithyddol.
- Angen eglurhad pam nad ydi'r adroddiad yn cael ei ystyried gan y ddau Gyngor cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru cyn i'r ddau Gyngor ei drafod.
- Gofynnwyd am esboniad i 'Sylwad 815', a oedd yn mynegi pryderon ynglŷn â'r ffigwr twf tai
- Cyfeiriwyd at bryderon ynglŷn â'r orddarpariaeth o dai ac effaith hynny ar yr iaith Gymraeg.
- Llety Gweithwyr Wylfa, - beth fydd yn digwydd i rain pan fyddai'r gwaith adeiladu yn cael ei gwblhau?
- Nodwyd fod nifer fawr o dai wedi eu dynodi yn y canolfannau mwyaf. Angen cyfleoedd i gadw'r boblogaeth yng nghefn gwlad.
- Gofynnwyd a yw'r Cynllun yn cydnabod prosiect Grid Cenedlaethol. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith gwifrau ar Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn ac felly angen ystyried gwifrau dan-ddaear, sef safbwynt Cyngor Sir Ynys Môn am y mater.
- Pryderon ynglŷn isadeiledd dwr - nid yw Dwr Cymru am ymdrin â'r broblem yn ystod cyfnod o lymder.
- Gofynnwyd pwy oedd wedi ymgymryd â'r astudiaeth Ardaloedd Tirwedd Arbennig a pham na chafwyd ymgynghorydd annibynnol i wneud yr Asesiad Iaith Gymraeg.
- Gofynnwyd am y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ymgyngrud a'r asesiad o'r ardaloedd tirwedd arbennig.

Mewn ymateb i sylwadau'r aelodau, nododd y swyddogion:

- Cafwyd cadarnhad bod gwneud penderfyniad ar yr amserlen yn fater i'r ddau Gyngor ar wahân yn unol â'r cytundeb rhwng y ddau Gyngor.
- Deallir bod yr Arolygiaeth Cynllunio yn bwriadu penodi dau Arolygydd a'u bod yn siaradwyr Cymraeg.
- Eglurwyd hefyd mai rôl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ydi gwneud y penderfyniad ar y sylwadau unigol. Pan gaiff adroddiad yr Arolygydd ei gyhoeddi byddai'n cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor ar wahân iddynt fabwysiadu. Cafwyd eglurhad fod y drefn wedi ei gytuno gan y ddau Gyngor.
- Ynglŷn â sylwad 815 - esboniwyd fod ffigwr twf tai yn seiliedig ar dystiolaeth amrywiol sy'n cynnwys rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd (sail 2011), tueddiadau adeiladu tai, rhagolygon economaidd a thystiolaeth am ffactorau sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol

a'r galw/ angen am gartrefi newydd. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth oedd wedi cael ei gasglu a'i ddehongliad a'i gymharu gyda'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y gwrthwynebydd nid oedd cyfiawnhad i ddiwygio'r lefel twf. Atgoffwyd y Pwyllgor o'r profion cadernid a'r angen i bob agwedd o'r Cynllun fod yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Nodwyd fod y Pwyllgor wrth gymeradwyo'r Cynllun Adnau i fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus yn y lle cyntaf, wedi gwneud hynny ar sail ei fod yn Gynllun cadarn. Pwysleisiwyd nad oedd yna dystiolaeth rymus wedi ei gyflwyno mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a oedd yn tanseilio'r dystiolaeth sydd gan y Cynghorau i gefnogi'r Cynllun – ac felly nad oedd cyfiawnhad i newid y lefel twf tai. Ymhellach nodwyd y buasai ceisio newid y lefel twf ar y cam yma, heb dystiolaeth rymus, yn risg sylweddol i'r Cynllun gan na fuasai'n debygol o gwrdd a'r profion cadernid. Gall hyn olygu rhoi'r Arolygydd Cynllunio mewn sefyllfa lle byddai'n rhaid argymhell peidio symud ymlaen gyda'r Archwiliad Cyhoeddus. Eglurwyd byddai newid arwyddocaol na fyddai'n cyd-fynd a'r dystiolaeth yn golygu rhoi Cynllun gwahanol i'r Cynllun Adnau o'i flaen a fyddai heb os yn golygu ailymweld a llawer o feysydd, gan gynnwys yr Asesiad Cynaliadwyedd. Byddai hynny'n golygu llithriad sylweddol yn yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun.

- Ymhellach, cyfeiriwyd at y fframwaith fonitro a welir ym Mhennod 8 a fyddai'n cofnodi a dehongli gwybodaeth am lefel a dosbarthiad tai. Hefyd, bydd y Cynllun yn cael ei adolygu yn y bedwaredd flwyddyn.
- Yn dilyn o'r uchod eglurwyd na fyddai'r Cynllun yn hyrwyddo gormodedd o dai oherwydd bod ystyriaeth wedi cael ei roi i'r galw lleol am gartrefi newydd.
- Ynglŷn â llety ar gyfer gweithwyr i adeiladu Wylfa Newydd, esboniwyd byddai'r anghenion yn cael ei gyfarch trwy nifer o wahanol ddulliau. Mae'r Cynllun yn cydnabod hyn ac yn ceisio sicrhau bod y budd mwyaf yn dod trwy etifeddiaeth tymor hir ble bod hyn yn briodol. Ar gyfer rhai datblygiadau megis 'Land and Lakes' ni fydd y defnydd etifeddiaeth, h.y. cartrefi i'r cymunedau lleol, yn cael ei weld tan ar ôl cyfnod y Cynllun. Felly, nid ydynt yn ffurfio rhan o'r cyflenwad i ddiwallu'r galw am dai yn ystod cyfnod y Cynllun.
- Esboniwyd fod ardal y Cynllun yn cael ei gysidro yn un gwledig ac mae strategaeth ofodol y Cynllun yn adlewyrchu hynny. Pwysleisiwyd fod 45% o'r ffigwr tai yn cael ei gyfeirio i Ganolfannau Lleol, Pentrefi a Chlystyrau.
- Eglurwyd fod Polisi PS8, sy'n bolisi meini prawf, yn ymdrin â phrosiect isadeiledd mawr fel Prosiect Grid Cenedlaethol. Byddai polisiâu manwl eraill yn berthnasol hefyd.
- Nodwyd y pryderon ynglŷn ag isadeiledd dŵr, – mae hyn yn fater i'w drafod yn ystod cyfnod cais cynllunio. Nid oedd dystiolaeth y byddai hynny yn atal datblygiadau rhag dod ymlaen.
- Nodwyd bod ymgynghorydd allanol wedi cael ei gomisiynu i ymgymryd â'r asesiad o ardaloedd tirwedd arbennig, sef cwmni LUC. Mae ymgynghorwyr wedi cael eu penodi i ychwanegu at gapasiti'r Uned. Nid oedd angen cymorth ymgynghorydd allanol i wneud yr asesiad effaith ieithyddol.
- Ynglŷn ag Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) esboniwyd fod cwmni LUC wedi gwneud yr astudiaeth. Esboniwyd fod papur cefndir wedi ei baratoi sydd yn adolygu'r tiroedd presennol i weld os ydynt yn deilwng i'w hadnabod fel ATA. Mae'r dystiolaeth wyddonol yn cefnogi'r dynodiadau a welir yn y Cynllun Datblygu Lleol. Nodwyd nad oedd dystiolaeth

wyddonol i gefnogi'r dynodiad yn y Cynllun Lleol ac nad oedd y Cynllun Datblygu Unedol (wedi stopio) yn adnabod ATA.

Cynigwyd gwelliant i gael arbenigwr allanol i wneud asesiad ieithyddol o'r Cynllun.

Mewn ymateb i'r cynnig yma, nododd y swyddogion:

Cadarnhawyd bod yr asesiad ieithyddol a gafodd ei wneud yn un sydd yn gyson a'r fethodoleg gydnabyddedig. Mae'r asesiad wedi goleuo'r rhan berthnasol o'r Asesiad Cynaliadwyedd hefyd. Nodwyd bod ystyriaeth ofalus wedi cael ei roi i'r gwrthwynebiadau am y lefel twf tai a'i ddsbarthiad a'r iaith Gymraeg. Mae'r gwaith hynny wedi arwain at argymhelliad i wneud rhai newidiadau â ffocws i rannau o'r Cynllun. Pwysleisiwyd byddai ail-ymweld a'r gwaith asesiad effaith ieithyddol ar y cam yma yn golygu gorfod gohirio gwneud penderfyniad am yr adroddiad oedd ger bron y Pwllgor. Mewn ymateb i ymholiad os gallai'r Cynghorau ail-ymweld a'r asesiad ieithyddol ochr yn ochr â chyflwyno'r Cynllun i'w Archwilio, cafwyd cadarnhad nad oedd yn bosib gwneud hynny. Mae'n rhaid i Gynllun sy'n cael ei gyflwyno fod yn seiliedig ar dystiolaeth a gyhoeddwyd. Cyfeiriwyd at y risgiau o beidio gwneud hynny ac at y risgiau yn gysylltiedig ag oedi yn y broses ar y cam yma. Byddai gan wrthwynebwyr gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth am y materion a godwyd yn eu dogfennau tystiolaeth yn ystod gwrandawiadau cyhoeddus yn yr Archwiliad.

Ni chafodd y gwelliant ei eilio.

Cynigwyd gwelliant i ddynodi safle Lairds, ger Llanfaes ar gyfer defnydd cymysg

Mewn ymateb i'r cynnig yma, nododd y swyddogion:

Nodwyd bod y cynnig yn ymwneud â safle sydd yn destun gwrthwynebiad a gafodd ei wneud oherwydd nad yw'r safle yn cael ei ddynodi yn y Cynllun Adnau. Mae'r adroddiad am y gwrthwynebiad yn dod i gasgliad na dderbyniwyd tystiolaeth digon grymus yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i ddynodi'r safle hwn ar gyfer defnydd cymysg sy'n cynnwys tai. Dywedwyd, mewn egwyddor, pe ddarparwyd tystiolaeth berthnasol, adeg cais cynllunio gallai'r Cynllun hwyluso rhai o'r defnyddiau unigol a gyfeiriwyd ato yn nhystiolaeth y gwrthwynebydd. Ni fyddai'r ystyriaeth ffafriol yn cael ei roi i'r raddfa a gyfeiriwyd ato. Pwysleisiwyd byddai cytuno i newid y Cynllun yn unol â'r gwrthwynebiad ddim yn gyson gyda thystiolaeth ynglŷn â'r galw na'r cyflenwad o dir ar gyfer tai, ac felly yn golygu newid sylfaenol a fyddai'n mynd i galon y Cynllun, gan danseilio cadernid y Cynllun. Byddai hynny yn risg arwyddocaol i'r broses fynd a'r Cynllun i'r Archwiliad Cyhoeddus. Byddai'r gwrthwynebydd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth am y materion a godwyd yn ei ddogfennau tystiolaeth yn ystod gwrandawiadau cyhoeddus yn yr Archwiliad.

Ni chafodd y gwelliant ei eilio

Penderfynwyd:

1. Cefnogi'r amserlen ddiwygiedig i'w gael ei fabwysiadu gan y ddau Gyngor.
2. Cymeradwyo'r ymatebion a argymhellir i'r sylwadau (Atodiad A) a'r papur ychwanegol a gafodd ei gylchredeg i'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar 29 Ionawr 2016.
3. Cymeradwyo'r Newidiadau â Ffocws Arfaethedig i'r Cynllun Adnau (Atodiad B) yn ddarostyngedig i'r Papur ychwanegol a gafodd ei gylchredeg ar 26 Ionawr 2016.

4. Cymeradwyo'r Mân newidiadau i'r Cynllun Adnau (Atodiad C).
5. Cyflwyno'r Cynllun ac atodiad o Newidiadau â Ffocws i Lywodraeth Cymru ar gyfer Archwiliad.
6. Cyhoeddi Newidiadau â Ffocws ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.
7. Rhoi pwerau dirprwyedig i'r uwch swyddogion ac/ neu'r Aelod Cabinet (Cynllunio a Rheoleiddio – Cyngor Gwynedd), Aelod Gweithredol (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd – Cyngor Sir Ynys Môn) i gytuno ar newidiadau posibl i'r Cynllun Adnau fel rhan o'r broses Archwiliad annibynnol yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Eitem 7

EITEM 7

CYFARFOD	PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD
DYDDIAD	24 MEHEFIN 2016
TEITL	DATGANIAD LLYWODRAETHU AR GYFER Y PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD
PWRPAS	DERBYN A CHYMERADWYO Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL
AWDUR	Dafydd Williams, Pennaeth Adran Rheoleiddio Dros Dro

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn gosod gofynion penodol ar gyrff cyhoeddus sydd yn gweithredu trefniadau rheoli partneriaethol trwy gyd-bwyllgorau ffurfiol.
- 1.2 Gofyniad Rhan 5 yw i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo datganiad rheolaeth fewnol. Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi ei ddarparu i gyd-fynd â'r gofyniad hwn. Mae'r ddogfen wedi ei pharatoi i gynnig fframwaith i weithrediad y Cyd-Bwyllgor ar ôl ystyried y gwahanol gytundebau rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.
- 1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn cwrdd â'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rhan 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

Cytunodd Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn ar 15 Mehefin 2010 i sefydlu trefniadau i gydweithio i ddarparu Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y cyd ar gyfer y ddau Awdurdod. Cytunwyd bod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cael ei ffurfio fel corff trawsffiniol, ffurfiol, ar gyfer cymryd penderfyniadau.

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei diogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

Mae'r Pwyllgor ar y Cyd hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, ac sydd yn cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a phrosesau, diwylliant a gwerthoedd hynny sydd yn cyfeirio a rheoli'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o'r Pwyllgor ar y Cyd i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac i ystyried os yw'r amcanion wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith llywodraethu ac wedi ei ddylunio i alluogi'r Pwyllgor ar y Cyd i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'n gyfan gwbl y risg o fethiant i gyflawni polisiau ac amcanion; gall felly ond ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses parhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisiau, bwriadon ac amcanion y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, i werthuso'r tebygolrwydd o risgiau'n cael eu gwireddu ac i isafu'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

Mae'r fframwaith llywodraethu berthnasol wedi bod yn ei le ar gyfer y Pwyllgor ar y Cyd ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddau 31 Mawrth 2016 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Rhan 3: Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

3.1 Aelodaeth

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi ei sefydlu yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol 1972 o dan adran 101, adran 102(1) (b) (hawl i ddau neu ragor o awdurdodau benodi cyd bwyllgor), adran 103 (gwariant cydbwyllgor i'w rannu rhwng yr awdurdodau), adran 104 (rheolau arferol awdurdodau lleol ar gyfer gwahardd aelod rhag bod yn aelod pwyllgor ar y cyd) ac adran 105 (gwahardd pleidleislo oherwydd buddiant mewn contractau ayb).

Mae cyfanswm o 14 aelod, gyda 7 aelod o Gyngor Gwynedd a 7 aelod o Gyngor Sir Ynys Môn.

3.2 Swyddogaethau

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cyflawni'r canlynol ar ran Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn:

- cytuno a pharatoi'n derfynol Gynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- cytuno ar, a pharatoi'n derfynol, adroddiad ar ymatebion i ymgynghoriadau ac (yn ôl y gofyn) newid Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn
- ymgynghori ar ffurfio Cytundeb Cyflawni, Dewisiadau Strategol a Strategaeth Ddewisol Gwynedd a Môn
- paratoi Cynllun Datblygu Lleol Adnau Gwynedd a Môn
- paratoi ac ystyried Ymatebion i Ymgynghoriadau'r Cynllun Datblygu Lleol Adnau
- derbyn a chytuno ar Adroddiad yr Arolygydd Cynllunio
- bod â chyfrifoldeb am fonitro ac adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Gwynedd a Môn
- bod â chyfrifoldeb am gynghori ar gadw trosolwg ar, ac adolygu, rhaglenni sy'n cael eu hariannu'n allanol nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Pwyllgor ond sy'n bwysig i'r gwaith sy'n cael ei wneud gan neu ar ran y Pwyllgor ac i adnoddau sy'n cael eu rhannu. Bydd hyn yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) ymateb i gynlluniau Datblygu Lleol mewn Awdurdodau Cynllunio cyfagos ac ymateb i ddogfennau ymgynghori ynghylch Polisi Cynllunio Cenedlaethol a dogfennau cynghori.
- cadw trosolwg ar, a derbyn adroddiadau gan, yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- ffurfio Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig Gwynedd a Môn
- penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth ei waith.

3.3 Strwythur, Rolau a Chyfrifoldebau

Er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi sefydlu'r canlynol:

- Bwrdd Prosiect ar y Cyd
- Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
- Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Mae gan bob un o'r rhain rôl penodol o fewn trefniadau llywodraethu'r Pwyllgor.

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd

Arwyddwyd Cytundeb Ffurfiol rhwng y ddau awdurdod ar 13 Hydref 2011 er mwyn sefydlu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ffurfiol. Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Lletyol, ac mae'r cytundeb ar gyfer sefydlu'r Uned yn nodi y byddai'r ddau awdurdod yn cefnogi'r Uned trwy drosglwyddo staff yn unol â gofynion TUPE i Cyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd sydd hefyd yn gyfrifol am ddarparu rheolaeth a gweinyddiaeth ariannol i'r Uned.

Gwneir penodiadau staff i'r Uned yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Gwynedd, ond mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd.

O safbwynt gweithredu o dydd i ddyd, felly, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gweithio o fewn Fframwaith Llywodraethu Cyngor Gwynedd.

Bwrdd Prosiect ar y Cyd

Grŵp mewnol o swyddogion o Cyngor Gwynedd a Cyngor Sir Ynys Môn yw'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd. Yn unol â'i Gylch Gorchwyl, mae'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn:

- Rhoi mewnbwn strategol i'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd (CDLI) a sicrhau bod yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd yn ymlynu i'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni.
- Cymryd trosolwg o waith yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a gwneud penderfyniadau gweithredol mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir gan yr Uned i'r ddau Awdurdod.

Wrth wneud hyn, mae'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn:

- Sicrhau bod amcanion strategol Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn cael eu bwydo i mewn i'r broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd.
- Derbyn, ac yn rhoi sylwadau ar yr adroddiadau a gyflwynwyd gan y Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd) a'r Uwch Reolwr, Gwasanaeth Amgylcheddol (Cyngor Gwynedd), ar y gwaith o baratoi'r CDLI ar y cyd ac ar waith yr Uned yn gyffredinol. gan gynnwys unrhyw faterion gweithredol sy'n debygol o ddenu y gwasanaeth ehangach a ddarperir gan yr Uned.
- Sicrhau bod cynnydd gyda'r gwaith o baratoi'r CDLI yn unol â'r amserlen a manylion a gynhwysir yn y Cytundebau Cyflawni a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.

Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

Grŵp mewnol o aelodau etholedig yw Panel y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Ei brif bwrpas yw ystyried a rhoi barn ar ddogfennau canolraddol, gan gynnwys dogfennau sy'n rhoi casgliadau cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriadau cyhoeddus er mwyn hwyluso'r gwaith o gadw at yr amserlen yn y Cytundeb Cyflawni.

Ei amcanion yw:

- Ystyried dogfennau drafft adeg camau canolraddol yn y broses paratoi'r CDLI ar y Cyd er mwyn adnabod dewisiadau neu faterion eraill i'w cynnwys yn y dogfennau drafft cyn iddynt gael eu cyhoeddi fel sail i ennyn trafodaeth a chyfranogiad cyhoeddus amdanynt, e.e. gweledigaeth y CDLI ar y Cyd, strategaethau amgen ar gyfer ardal y CDLI ar y Cyd, ystyriaeth o'r adroddiad scopio drafft i'r Aseiad Cynladwyedd, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedol sydd yn y Cytundeb Cyflawni.
- Derbyn, a chymryd cyfrif o'r sylwadau gan y cyhoedd ac unrhyw grŵp/fforwm budd-ddeiliaid yn ystod cyfnodau cyfranogiad cyhoeddus neu ymgynghoriad statudol cyhoeddus.

3.4 Safonau Gwasanaeth

Yn unol â'r gytundeb ar gyfer sefydlu'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

- Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Lletyol ar gyfer yr Uned.
- Mae'r Uned yn atebol i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, ac yn sicrhau fod cyngor a roddir i'r Pwyllgor yn gymwys ac yn unol â Deddfwriaeth gyfredol ac ymarfer da. Mae'r Rheolwr Cynllunio yn mapio allan cyfarfodydd arferaethedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd fel rhan o Raglen Waith, gan sicrhau cylchredeg gwybodaeth yn unol â safonau sydd wedi eu sefydlu gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.
- Mae gwaith yr Uned ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol sengl yn derbyn mewnbwn y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a bydd y cyfarfodydd y Panel hwn yn cael ei fapio allan fel rhan o'r Rhaglen Waith, gyda gwybodaeth yn cael ei ddosbarthu yn unol â safonau a sefydlwyd gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.
- Mae'r Uned yn ymgymryd â'r tasgau sy'n ofynnol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol sengl, yn unol â'r Cytundeb Cyflawni a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Mae'r Uned yn adrodd i'r Bwrdd Prosiect ar y Cyd yn unol â Cylch Gorchwyl y Bwrdd Prosiect
- Mae'r Uned yn cymryd rhan mewn cyfnewid llawn ac amserol o wybodaeth gyda chwsmeriaid o fewn yr awdurdodau ac yn allanol, yn unol â'r safonau a sefydlwyd gan Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Lletyol.

Rhan 4: EFFEITHIOLRWYDD Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn gyfrifol am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithiolrwydd wedi ei lywio gan waith y rheolwyr gweithredol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, unrhyw sylw yn adroddiad blynyddol pennaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol, yn ogystal â sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol ac asiantaethau adolygu eraill ac arolygiaethau.

- Gan mai Cyngor Gwynedd yw awdurdod lletyol y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, mae adolygiadau o effeithiolrwydd y Côt Llywodraethu Lleol, y Cyfansoddiad a chyfundrefn rheolaeth fewnol yr awdurdod hwnnw yn ymgorffori sylfaen lywodraethu'r Pwyllgor hefyd.

Rydym wedi cael ein cynghori ar oblygiadau canlyniad **yr adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethu** gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, a bod y trefniadau **yn parhau i gael eu hystyried yn addas at ei ddiben yn unol â'r fframwaith llywodraethu.**

Rhan 5: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL

Mae'r prosesau a ddisgrifir mewn rhannau blaenorol o'r datganiad hwn yn disgrifio'r dulliau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i adnabod unrhyw faterion llywodraethu arwyddocaol sydd angen sylw.

Nid yw'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd o'r farn fod unrhyw faterion o'r fath wedi codi yn ystod asesiad o'i drefniadau llywodraethu sydd yn gwarantu sylw yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yma.

Dafydd Wyn Williams

**[PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO (Dros Dro),
CYNGOR GWYNEDD]**

DYDDIAD:

**[CADEIRYDD PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO
AR Y CYD]**

DYDDIAD:

Eitem 8

CYFARFOD	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd)
DYDDIAD	24 Mehefin 2016
TEITL	Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016
PWRPAS	Cyflwyno – <ul style="list-style-type: none">• Adroddiad Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2015/16, a• Ffurflen datganiadau cyfrifon, wedi'i ardystio, ond cyn archwiliad
ARGYMHELLIAD	Derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon
AWDUR	William E Jones, Uwch Reolwr Cyllid, Cyngor Gwynedd

1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

- 1.1 Fel adroddwyd mewn blynyddoedd a fu, mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.
- 1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau a chynghorau lleol eraill.
- 1.4 Cyngor Gwynedd yw'r Cyngor 'arweiniol' sy'n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ynglŷn â chyllid Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Cynghorau Gwynedd ac Ynys Môn).
- 1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae'r trosiant yn llai na £2.5miliwn, ystyrir y cyd-bwyllgor yn "gyd-bwyllgor bach" a rhaid paratoi'r cyfrifon ar ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- 1.6 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad gan Deloitte, archwilwyr allanol apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

2. CYFRIFON 2015/16

- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2015/16 yma fel Atodiad A** ar ffurf adroddiad “alldro” syml.
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y ffurflen datganiadau cyfrifon am 2015/16 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio** gan Dafydd L Edwards, y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.
- 2.3 Bydd y cyfrifon a'r ffurflen yn destun archwiliad buan gan Deloitte, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i'r Cyd-Bwyllgor ar 23 Medi 2016.
